OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 400

## Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

## RHAN 4

### Datblygu Gwledig: Deddfwriaeth Ddomestig

**Diwygio Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014**

**13.** Hepgorer rheoliad 2(3) o Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014(**1**).

**Diwygio Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014**

**14.**—(1) Mae Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014(**2**) wedi eu diwygio, i'r graddau y maent yn ymwneud â chymorth domestig ar gyfer datblygu gwledig, fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1, ar ôl paragraff 15 mewnosoder—

"**Trosi, aredig neu ailhadu tir a ddynodwyd yn laswelltir parhaol amgylcheddol-sensitif**

**16.**—(1) Ni chaiff buddiolwr drosi, aredig neu ailhadu darnau penodol o laswelltir parhaol amgylcheddol-sensitif oni bai—

(a) bod hysbysiad y safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig yn ei gwneud yn ofynnol i'r buddiolwr aredig neu drosi darnau penodol o'r safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig neu eu trosi neu'n caniatáu i'r buddiolwr wneud hynny; neu

(b) bod cydsyniad i wneud hynny wedi ei roi gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

(2) Yn y paragraff hwn—

ystyr "glaswelltir parhaol amgylcheddol-sensitif" ("*environmentally sensitive permanent grassland*") yw—

(a) glaswelltir a leolir mewn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig; a

(b) glaswelltir y mae angen cydsyniad ysgrifenedig i aredig mewn perthynas ag ef yn unol ag adran 28E(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(**3**) ond nad yw'r cydsyniad hwnnw wedi ei sicrhau;

mae i "safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig" yr ystyr a roddir i "*site of special scientific interest*" yn adran 52(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981."

(**1**) O.S. 2014/3222 (Cy. 327), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/688 (Cy. 132).
(**2**) O.S. 2014/3223 (Cy. 328), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/217 (Cy. 86), O.S. 2016/1154, O.S. 2017/565 (Cy. 134), O.S. 2019/688 (Cy. 132), O.S. 2020/104 (Cy. 17) ac O.S. 2020/1556 (Cy. 328).
(**3**) 1981 p. 69.

***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*